Canllawiau ar gyfer Hawlio Costau Adleoli

Math o gost	Costau y **gellir** eu hawlio	Costau **na ellir** eu hawlio
Costau sydd ynghlwm wrth werthu'r tŷ presennol	-Ffioedd cyfreithiol/asiantwyr tai -Hysbysebu -Datgysylltu nwy, dŵr etc.	
Costau sy'n gysylltiedig â phrynu tŷ newydd	-Ffioedd a gwasanaethau cyfreithiol -Arolygon a phrisio -Ffioedd y Gofrestrfa Tir -Ffioedd gweinyddu rheolaeth adleoli -Cysylltu nwy, dŵr etc.	-Treth stamp -Biliau gwasanaeth -Treth y Cyngor -Ailgyfeirio post
Costau sy'n gysylltiedig â chludo eiddo i'r cartref newydd (Noder y dylid sicrhau 3 thendr cystadleuol, ysgrifenedig, a'u cyflwyno gyda'r cais)	-Pacio a dadbacio -Storio dros dro -Costau cludo -Yswiriant yn ystod y daith	-Costau sy'n gysylltiedig ag adleoli anifeiliaid anwes y teulu -Costau o fwy nag un lleoliad
Costau teithio a chynhaliaeth	- Teithio o'r hen gartref i'r cartref newydd ar ddiwrnod y mudo (Milltiroedd / tocyn ail ddosbarth awyren / tocyn rhataf llong) - Ymweliadau cychwynnol â'r lleoliad newydd (2 ymweliad ar y mwyaf)	-Costau bwyd a diod (ac eithrio brecwast lle mae brecwast yn rhan o'r trefniant Gwely a Brecwast) -Bondiau ar gyfer rhent/blaendaliadau rhentu -Blaendaliadau tai rhent -Costau teithio rhwng cartref presennol y gweithiwr a Phrifysgol Aberystwyth, ac oddi yno, ar ôl i'r gweithiwr ddechrau yn ei swydd
Nwyddau i'r cartref newydd	Ddim yn cael eu had-dalu	
Benthyciadau pontio	Er mwyn i'r rhain gyfrif fel costau neu fuddion cymwys, rhaid bodloni'r holl amodau isod: -Mae'r gweithiwr (a/neu aelodau o'r teulu) yn gwerthu eu hen gartref ac yn prynu un newydd oherwydd un o'r rhesymau sy'n gysylltiedig â gwaith a amlinellir yng nghanllawiau CThEM. -Mae angen benthyciad ar y gweithiwr i bontio'r bwlch rhwng prynu'r tŷ newydd a derbyn yr arian o werthu'r	

	hen dŷ. -Dim ond ar gyfer prynu'r tŷ newydd neu dalu'r benthyciadau ar gyfer yr hen dŷ y bydd y benthyciad yn cael ei ddefnyddio. -Nid yw'r benthyciad yn uwch na gwerth marchnadol yr hen dŷ (ar yr adeg y caiff y tŷ newydd ei brynu).	

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â 'Pholisi Costau Adleoli' y Brifysgol. Noder nad rhestr gynhwysfawr mohoni ac os nad yw'n glir i'r unigolyn a ddylid hawlio cost eitem ai peidio, dylid holi am gyngor yr adran Adnoddau Dynol cyn gwario.